Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Pontyberem

**Heol Y Felin**
**Pontyberem**
**Llanelli**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA15 5LY**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Pontyberem

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Pontyberem |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Ddim yn ysgol enwadol |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 230 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 198 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | Dim |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 15.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 13.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 50.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2022 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/11/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolydiad | 13/03/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.
Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae arweinyddiaeth yr ysgol yn gadarn ac effeithiol, ac yn parchu cyfraniad pob un sy’n ymwneud â hi. O ganlyniad, mae’r ysgol yn un gynhwysol lle mae arweinwyr a staff yn hyrwyddo perthnasoedd iach yn dda, gyda phwyslais penodol ar sicrhau cydraddoldeb, cyfle cyfartal a thegwch i bob unigolyn o fewn ei chymuned. Maent yn parchu cyfraniad pob disgybl i fywyd a gwaith yr ysgol ac yn rhoi gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod bob un mewn lle emosiynol da i’w galluogi i ddysgu. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn hapus ac yn teimlo’n ddiogel o fewn cymuned ofalgar a chynhwysol yr ysgol.

Darperir cwricwlwm eang a chytbwys i’r disgyblion sy’n adeiladu ar eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a’u medrau yn effeithiol. Mae’r ddarpariaeth yn gyffrous ac yn rhoi cyfle i’r disgyblion ddysgu am eu hardal leol, am Gymru ac am fannau pellach. Mae hyn yn codi eu hymwybyddiaeth o’u lle mewn cymdeithas a phwysigrwydd bod yn ddinasyddion cyfrifol a chydwybodol. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol iawn tuag at eu dysgu, yn awyddus i fanteisio ar yr ystod gyfoethog o brofiadau dysgu ac yn gwneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn.

Rhoddir llais cryf i’r disgyblion gyfrannu at yr hyn maent am ei ddysgu. Maent yn hapus iawn am hyn ac yn arbennig am y cyfleoedd a gânt i drefnu gweithgareddau diddorol sy’n ychwanegu at gyfoeth y cwricwlwm ac sy’n aml yn rhoi ffocws clir ar gefnogi gweithgareddau dyngarol.

Rhoddir cyfleoedd cyson a gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn chwaraeon, gweithgareddau, perfformiadau a digwyddiadau fel eisteddfodau a chyngherddau sy’n fodd i feithrin eu hunanhyder a’u gallu corfforol, mynegiannol a chreadigol.

Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn ac yn diwallu anghenion gwahanol grwpiau yn feistrolgar, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, eraill sydd â heriau o ran ymddygiad ac eraill sy’n fregus. Mae disgwyliadau’r rhan fwyaf o athrawon yn uchel iawn, ac mae trefniadau dosbarth, ar y cyfan, yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw’r arfer hon yn gyson nac yn ddigon effeithiol ar draws yr ysgol. Er bod yr ysgol yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda, nid yw’r strategaethau i alluogi lleiafrif y disgyblion i ddarllen gyda rhuglder nac i fwynhau darllen wedi datblygu’n ddigon cyson.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod gan yr holl athrawon a staff ategol ddisgwyliadau sy’n gyson uchel a threfniadaeth dosbarth effeithiol

A2 Sicrhau bod gweithdrefnau hybu medrau a mwynhad disgyblion wrth ddarllen yn eang ac yn gyson effeithiol ar draws yr ysgol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar sut mae’r ysgol yn diwallu anghenion lles emosiynol disgyblion er mwyn sicrhau eu bod mewn lle da i ddysgu.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Lleiafrif y disgyblion sy'n cychwyn yn yr ysgol gyda medrau Cymraeg a medrau cymdeithasol sy'n cyfateb i, neu'n uwch na'r disgwyl am eu hoed. Mae'r gweddill yn meddu ar fedrau sy'n is na hynny. Er hyn, mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn ym mhob agwedd o'u gwaith erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae medrau gwrando bron pob un disgybl yn datblygu'n dda iawn, ac mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llafar yn y ddwy iaith. Mae medrau darllen llawer yn datblygu'n addas ond, ar adegau, mae ychydig yn profi anhawster darllen gyda rhuglder ac yn cael trafferth esbonio'n glir yr hyn maent yn ei ddarllen. Mae medrau ysgrifennu llawer yn datblygu'n gadarn yn y ddwy iaith, lle bo'n briodol, o ystyried eu hoed a'u gallu. Mae medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y rhan fwyaf hefyd yn datblygu'n gadarn. Mae disgyblion yn defnyddio'u medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a'u medrau ehangach yn ystyrlon, yn briodol ac i bwrpas mewn amrywiol gyd-destunau yn seiliedig ar eu themâu tymhorol.

Un enghraifft nodedig lle mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn cymhwyso medrau amrywiol mewn cyd-destun diddorol a symbylus yw yn eu gwaith ar greu drysau tai i'r tylwyth teg. Symbylwyd y gwaith hwn trwy ymweld â phentref y tylwyth teg yn yr Ardd Fotaneg Genedlaethol sydd nid nepell o safle'r ysgol. Tra yno, daethant o hyd i lythyr gan dylwyth teg yn esbonio eu bod am symud i fyw i Bontyberem ac yn holi am gymorth y disgyblion i ddod o hyd i gartref addas iddynt. Wedi iddynt ddychwelyd, aeth y disgyblion ati i grwydro coedlan yr ysgol lle daethant o hyd i ddrws bach ar waelod un o'r coed, â neges arall yn croesawu'r tylwyth teg yno. Bu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen y neges yn lled hyderus, yn trafod ei chynnwys, a defnyddio medrau mesur yn gywir i gynllunio drysau bach newydd i'w cartrefi. Gan chwarae rôl fel y tylwyth teg a oedd wedi symud i'r ardal, maent wedi ysgrifennu cardiau post a llythyron diddorol at eu ffrindiau i esbonio cymaint maent yn mwynhau eu cartref newydd ac ati. Mae'r rhan fwyaf wedi ymchwilio'n briodol ar y we i brisio drysau newydd, ac wedi dylunio modelau syml ohonynt i'w gwerthu gan gymhwyso'u medrau mesur a chyfrifo yn hyderus.

Mae disgyblion ieuengaf yr ysgol hefyd yn defnyddio'u medrau amrywiol yn hyderus a chywir i ymateb i sbardunau cyffrous. Er enghraifft, creodd disgyblion y dosbarthiadau derbyn ardd pili-pala ar dir yr ysgol yn dilyn ymweliad â'r parc lleol. Didolodd bron pob un blanhigion yn gywir yn ôl lliw, cyn dewis y rhai a oedd yn addas i'w plannu. Aethant ati i gynllunio addurniadau a mynegi barn yn synhwyrol am eu hoff rai gan arddangos y canlyniadau'n glir mewn pictogram electronig drwy ddefnyddio'u medrau TGCh yn briodol. Ysgrifennodd bron pob un frawddegau syml yn gywir gan ddilyn patrwm penodol a pherfformio'u gwaith mewn gwasanaeth ysgol gyfan, lle'r oedd eu rhieni'n bresennol i'w clywed.

Un o rinweddau pennaf disgyblion hŷn yr ysgol hon yw gallu bron pob un i gymryd cyfrifoldeb yn aeddfed am eu dysgu eu hunain, gan ddefnyddio'u medrau amrywiol yn hyderus i bwrpas penodol. Trefnodd disgyblion Blwyddyn 6 Eisteddfod Ysgol Pontyberem yn ddiweddar. Buont yn cynllunio a chreu baneri priodol ar gyfer eu

dosbarthiadau, cyn cynorthwyo disgyblion pob dosbarth arall yn yr ysgol i wneud yr un fath. Nhw fu'n gyfrifol am greu'r amserlen addas, posteri i hysbysebu'r Eisteddfod, tystysgrifau i'r enillwyr ynghyd â hysbyseb defnyddiol i rieni i'w hannog i wisgo'u plant mewn gwisg draddodiadol Gymreig. Y disgyblion oedd yn gyfrifol am ddewis a chysylltu â beirniaid ac am ysgrifennu araith fer i gyfarch y gynulleidfa a chyhoeddi'r Eisteddfod yn lleol. Mae hyn yn ogystal â chydweithio'n effeithiol i arwain, paratoi a hyfforddi pob tîm a fu'n cystadlu.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda iawn ac maent yn eu defnyddio'n llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion y dosbarth derbyn yn arbrofi â deunyddiau naturiol fel dail a brigau amrywiol wrth ffurfio llythrennau a rhifau yn dilyn mynd ar daith i'r goedwig leol. Mae disgyblion Blwyddyn 4 yn defnyddio eu medrau digidol yn fedrus. Maent yn dylunio matiau gweddi Islamaidd fel rhan o'u gwaith yn edrych ar wahanol grefyddau ac wrth argraffu llieiniau sychu llestri gyda phatrymau yn adlewyrchu'r ardal leol. Mae disgyblion ar frig yr ysgol yn cyfansoddi a pherfformio darnau o gerddoriaeth rythmig yn gelfydd a dychmygus drwy ddefnyddio offerynnau taro di-draw, yn seiliedig ar thema Hei Mistar Urdd.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron pob disgybl yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel o fewn cymuned ofalgar a chynhwysol yr ysgol. Maent hefyd yn deall yn dda bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar lein. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi ac yn ystod adegau egwyl a chinio. Mae'r ychydig iawn sy'n wynebu anawsterau rheoli eu hymddygiad eu hunain yn defnyddio strategaethau addas i'w helpu i ymddwyn yn well. Mae bron pob un yn dangos cwrteisi arbennig ac yn groesawgar iawn tuag at ymwelwyr â'r ysgol. Mae'r balchder sydd ganddynt tuag at eu hysgol a'u cymuned leol yn nodedig.

Gwerthfawroga bron pob un y gofal a'r gynhaliaeth maent yn ei chael o fewn amgylchedd ddysgu gynhwysol ac ysgogol ac yn dangos parch tuag at oedolion ac at ei gilydd. Enghraifft dda o hyn yw'r modd arbennig mae disgyblion hynaf yr ysgol yn cefnogi'r rhai ieuengaf yn ystod amserau egwyl. Mae'r fainc 'Bydis Bont' ar yr iard yn fan lle gall disgyblion fynd i eistedd os ydynt yn chwilio am gefnogaeth eu cyfoedion. Mae bron pob disgybl yn hyderus bod staff yn gwrando ac yn ymateb i unrhyw bryderon sydd ganddynt, a hynny'n brydlon.

Mae bron pob disgybl yn datblygu dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion moesol ac egwyddorol. Maent yn datblygu'r gallu a'r hyder i drafod eu teimladau ac i ddangos empathi tuag at eraill mewn cyfyngder. Enghraifft nodedig o hyn yw'r modd yr aeth y disgyblion eu hunain ati i drefnu ac arwain gwylnos i gofio am bobl Wcráin ac effaith y rhyfel arnynt. Mae bron pob un yn deall bod ganddynt hawliau penodol sy'n datblygu eu hymdeimlad o hunanwerth.

Mae'r disgyblion yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd cyfoethog a gânt i leisio'u barn a dylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol, sy'n datblygu eu hyder ac amrediad eang o fedrau. Er enghraifft, mae grwpiau amrywiol llais y disgyblion yn arwain nifer o weithgareddau fel diwrnod hanes lleol, ailgylchu gwisg ysgol a phlannu coed.

Dealla'r rhan fwyaf o ddisgyblion bwysigrwydd gwneud dewisiadau sy'n effeithio'n gadarnhaol ar eu hiechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol fel cynnal diet iach a chytbwys, ymarfer eu corff ynghyd â'r angen i rannu a thrafod eu teimladau. Yn

ogystal, maent yn ymrwymo i weithgarwch sy’n hybu eu lles emosiynol ac yn datblygu eu gwytnwch personol. Mae arweiniad y Llysgenhadon Efydd ar gyfer gweithgarwch corfforol yn ystod adegau egwyl yn cael effaith gadarnhaol iawn ar les a pherthnasoedd disgyblion.

Datblyga’r rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol iawn tuag at eu dysgu. Maent yn awyddus i fanteisio ar yr ystod gyfoethog o brofiadau dysgu a ddarperir ar eu cyfer. Maent yn dangos cymhelliant, chwilfrydedd a dyfalbarhad yn eu gwersi. Erbyn cyrraedd brig yr ysgol, mae’r rhan fwyaf yn wynebu profiadau a sefyllfaoedd newydd gyda hyder a gwytnwch cynyddol. Yn gyffredinol, mae llawer o’r disgyblion yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn cyfranogi’n dda iawn yn y gweithgareddau o fewn amgylchedd mewnol ac allanol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos parch ac aeddfedrwydd tuag at gyfraniadau eraill. Er enghraifft, maent yn parchu safbwyntiau ei gilydd ac yn derbyn barnau gwahanol yn rhesymol a chytbwys. Maent yn cydweithio’n hwylus a chynhyrchiol fel parau ac mewn grwpiau.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn galw i gof ac yn adeiladu ar eu dysgu blaenorol yn briodol. Wrth symud drwy’r ysgol, maent yn datblygu medrau dysgu annibynnol yn gynyddol hyderus ac yn defnyddio a chymhwyso ystod dda o fedrau at amrywiol ddibenion, er enghraifft wrth gymharu cyfnod Y Grawys a Ramadan a chyfleu eu canfyddiadau ar ffurf diagram Venn. Mae’r rhan fwyaf yn ymateb yn gadarnhaol i adborth athrawon a chynorthwywyr wrth iddynt weithio ar eu tasgau dysgu. Maent yn dangos parodrwydd i weithredu ar sylwadau a gynigir iddynt er mwyn gwella eu gwaith, er enghraifft wrth wella a mireinio darnau o ysgrifennu estynedig neu ymarferion iaith ar dreiglo.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae’r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy’n adeiladu ar eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a’u medrau yn effeithiol. Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer hyn ac maent yn gwneud cynnydd arwyddocaol wrth gyflwyno’r Cwricwlwm i Gymru ar draws yr ysgol. Mae’r cwricwlwm wedi ei seilio ar hyrwyddo cymuned ofalgar lle mae’r disgyblion yn cael eu herio a’u hannog i wneud eu gorau. Maent wedi cydweithio â disgyblion, rhieni, gofalwyr a llywodraethwyr i ffurfio’r weledigaeth ar gyfer y cwricwlwm sy'n adlewyrchu’r pedwar diben yn llwyddiannus ac yn ei wneud yn berthnasol i’r disgyblion.

Mae’r cwricwlwm yn adlewyrchu natur y gymuned leol yn ddychmygus, gan gynnwys gweithgareddau dysgu cyffrous sy’n adlewyrchu natur ieithyddol a diwylliannol yr ardal yn dda. Mae’r gweithgareddau yn ystyried cyd-destun yr ysgol ac ymdeimlad cryf o berthyn i’r pentref yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae gweithgarwch am gymuned yr ysgol yn sail i themâu ysgol gyfan ac yn dyfnhau dealltwriaeth y disgyblion o hanes lleol yn effeithiol iawn. Trefnodd disgyblion hynaf yr ysgol fore agored llwyddiannus gan wahodd aelodau o’r gymuned i rannu gwybodaeth hanesyddol am fywyd a gwaith yn y pentref yn y gorffennol. Drwy hyn, mae’r disgyblion wedi dysgu am ddigwyddiadau o’r gorffennol sy’n cynnwys gwrthryfel gwerinol a helyntion Merched Beca.

Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn ac yn diwallu anghenion gwahanol grwpiau yn feistrolgar, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, heriau ymddygiad ac unigolion bregus. Maent yn defnyddio canlyniadau profion

safonol a deilliannau gweithdrefnau asesu ac olrhain cynnydd disgyblion yn gywrain i gynllunio'n fwriadus ar eu cyfer. Mae hyn yn sicrhau bod athrawon yn ymateb yn brydlon i anghenion disgyblion ac yn eu cefnogi'n amserol. Mae cynorthwywyr yn cefnogi'r dysgu yn hynod gadarn ac yn cefnogi grwpiau penodol o ddysgwyr yn fedrus iawn.

Mae'r ddarpariaeth yn adeiladu'n drefnus ar fedrau blaenorol y disgyblion, yn arbennig ym meysydd llythrennedd, rhifedd a TGCh, sy'n eu galluogi i gael mynediad llawn i'r cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu strategaethau dysgu darllen bob amser yn effeithiol ar draws yr ysgol, sy'n llesteirio rhugldер a mwynhad lleiafrif o ddisgyblion yn eu darllen.

Mae'r ysgol yn cynllunio ymweliadau addysgol ysgogol i gyfoethogi ac atgyfnerthu'r dysgu. Er enghraifft, fel rhan o'r thema 'Cynefin', ymwelodd disgyblion Blwyddyn 3 a 4 a'r dosbarth derbyn â thraeth Llansteffan a Pharc Gweledig Pembre i gymharu cynefinoedd. Trwy'r ymweliadau hyn, maent yn cael cyfleoedd cyfoethog i ddwysáu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o amgylchoedd amrywiol. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd cyffrous i ddisgyblion weithio ag artistiaid lleol a beirdd cenedlaethol, er enghraifft wrth greu murlun trawiadol ar y cyd sy'n adlewyrchu hanes y gymuned leol.

Mewn llawer o'r dosbarthiadau lle mae'r addysgu ar ei orau, mae disgwyliadau'r athrawon yn uchel, a threfniadaeth y dosbarth yn gadarn. Yn y dosbarthiadau hyn, mae cyflwyniadau athrawon yn fyrlymus ac yn ysgogol gan ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gelfydd. Fodd bynnag, nid yw'r arfer hon yn gyson nac yn ddigon effeithiol ar draws yr ysgol ac mae hyn yn rhwystro lleiafrif o ddisgyblion rhag cyflawni hyd eithaf eu gallu.

Ar y cyfan, mae'r athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau holi treiddgar sy'n effeithiol wrth adalw'r dysgu blaenorol ac yn llywio cyfeiriad y dysgu yn bwrpasol. Maent yn rhannu nod y gwersi yn bwrpasol, ac yn cynnwys y disgyblion yn y broses o drafod beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn llwyddo yn eu tasgau. Yn ei dro, mae hyn yn arwain at welliannau yn safon gwaith y disgyblion. Mae athrawon yn cynnig adborth llafar buddiol ac amserol i ddisgyblion er mwyn eu hannog i ystyried beth maent yn ei wneud yn dda a sut y gallant wella'u gwaith. Maent yn clustnodi cyfleoedd addas i ddisgyblion wella'u gwaith yn dilyn adborth neu, ar adegau, i arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Maent yn modelu darnau o waith da sy'n sbarduno trafodaethau pwrpasol ymysg y disgyblion ar gyfer gosod meini prawf llwyddiant miniog a phenodol ar gyfer y tasgau dysgu.

Rhoddir cyfleoedd cyfoethog i'r holl ddisgyblion elwa'n sylweddol o brofiadau bwriadus yn ardaloedd allanol helaeth yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 yn cael cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu eu medrau datrys problemau a gweithio fel tîm wrth adeiladu cysgodfan i Santes Dwynwen yn y goedwig. Maent yn cael cyfleoedd creadigol i ddatblygu eu medrau celf wrth gynhyrchu patrymau trawiadol 'Hapa-Zome' o Japan gan ddefnyddio cennin Pedr. Mae disgyblion Blwyddyn 5 yn cael cyfleoedd penodol i ddatblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau addysg gorfforol sy'n datblygu agweddau fel cydbwysedd a medrau trin pêl.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae hyrwyddo perthnasoedd iach yn flaenoriaeth i'r ysgol gyda phwyslais penodol ar sicrhau cyfle cyfartal a thegwch i bob unigolyn o fewn ei chymuned. Mae'r pwyslais ar werthfawrogi amrywiaeth yn seiliedig ar yr egwyddor bod pawb yr un mor bwysig â'i gilydd ac yn elfen ganolog o waith yr ysgol. Mae nifer o strategaethau, sydd wedi'u sefydlu, yn sicrhau bod yr ysgol yn lle cyfeillgar, gofalgar a chynhwysol yn seiliedig ar barch ac empathi. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel. Mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Darpara'r pennaeth a'r staff addysgu yn fwriadus a llwyddiannus iawn i ddiwallu anghenion lles disgyblion. Maent wedi sefydlu amrywiaeth o strategaethau blaengar sy'n cynnwys pob disgybl, ac yn sicrhau eu bod mewn 'lle da' i ddysgu a manteisio ar yr ystod eang o brofiadau a ddarperir. Mae'r pwyslais ar wobrwyo ymdrech ac ymddygiad cadarnhaol yn seiliedig ar yr egwyddor sylfaenol: 'Rwy'n gallu gwneud' neu 'Nid wyf yn gallu gwneud hyn eto'. Mae hon yn elfen ganolog o weledigaeth yr ysgol ac yn arwain at sicrhau amgylchedd cynhwysol a chynhaliol i'r holl ddisgyblion lle maent yn hapus i roi cynnig arni heb ofni gwneud camgymeriadau.

Mae gan y tîm addysgu adnabyddiaeth drylwyr o'r disgyblion ynghyd â'u hanghenion. Maent yn cydweithio'n fwriadus i deilwra'r ddarpariaeth yn gelfydd i ddiwallu eu hanghenion yn hynod lwyddiannus, mewn modd cyfannol. Mae'r ysgol wedi sefydlu gweithdrefnau cydlynus i olrhain cynnydd a lles disgyblion ac mae'n rhoi sylw manwl i grwpiau o ddysgwyr ac unigolion. Mae'r tîm addysgu yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o'r systemau hyn yn bwrpasol i gynllunio'r camau dysgu nesaf i'r disgyblion. Maent yn darparu ystod eang o ymyraethau priodol yn gynnar i ddisgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol, sy'n eu galluogi i wneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau unigol.

Mae'r ddarpariaeth i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn nodwedd hynod effeithiol o waith yr ysgol. Mae'r strategaethau hyn yn cynnwys rhaglen gynhwysfawr o ymyraethau, ystafell synhwyraidd, corneli lles a sesiynau meddylgarwch. Yn ddiweddar, sefydlwyd 'Y Nyth', sef hafan faethu, sy'n profi'n ddatblygiad hynod lwyddiannus i gefnogi disgyblion bregus. Mae arbenigeddau uchel y tîm addysgu a'u hangerdd tuag at les a datblygiad y disgybl 'cyfan' yn sicrhau bod yr amgylchedd ddysgu yn hollol gynhwysol ac yn cynnig y cyfle i bron bob disgybl wneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Mae'r cyswllt a'r cyfathrebu clós â rhieni, gan gynnwys cefnogaeth i deuluoedd, yn cyfrannu'n effeithiol iawn tuag at gyrraedd y nod hwn. Mae rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth yn fawr. Mae gan yr ysgol gyswllt gynhyrchiol ag ystod eang o asiantaethau allanol i gefnogi'r staff i ddarparu'n effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac i hyrwyddo presenoldeb cyson.

Trwy'r ystod o gynghorau plant, mae'r ysgol yn achub ar gyfleoedd buddiol i hyrwyddo llais y dysgwyr a'u datblygu'n ddinasyddion gweithgar a chyfrifol. Mae'r rhain yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol tra'n datblygu amrywiaeth o fedrau ynghyd â'u hyder. Un enghraifft o weithgaredd a anogwyd gan y disgyblion yw'r stondin gwerthu gwisg ysgol ail law, sy'n hybu ailgylchu ac yn fodd i godi arian i brynu a phlannu coed ar dir yr ysgol.

Datblyga'r ysgol fedrau ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol disgyblion yn hynod lwyddiannus. Mae'r staff yn cymryd cyfleoedd pwrpasol i hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o'u hunaniaeth, treftadaeth a'r diwylliant Cymreig yn effeithiol iawn. Maent yn darparu cyfleoedd i rannu a dathlu'r elfennau hyn drwy ystod o weithgareddau gwerthfawr. Mae'r rhain yn cynnwys dysgu am gyswllt lleol Merched Beca, cynnal eisteddfod; dethol Cymro a Chymraes Yr Wythnos; a thrwy drefnu ymweliadau addysgol i leoedd o ddiddordeb cenedlaethol fel Yr Ardd Fotaneg Genedlaethol. Yn ogystal â Christnogaeth, mae'r ysgol yn cyflwyno amrywiaeth o grefyddau eraill i'r disgyblion, fel Iddewiaeth ac Islam ynghyd ag unigolion dylanwadol rhyngwladol fel Rosa Parks, Martin Luther King a Gandhi. Mae gweithgareddau symbylus fel gwneud bara croyw ym Mlwyddyn 2 yn ennyn chwilfrydedd a brwdfrydedd bron pob un disgybl. Mae gwasanaethau addoli ar y cyd yn drawiadol eu naws ac yn werthfawr iawn i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd parchu amrywiaeth a chydraddoldeb. Mae hefyd yn rhoi cyfle i unigolion a grwpiau berfformio eitemau cerddorol i weddill y disgyblion yn rheolaidd.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cyson a gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn perfformiadau a digwyddiadau fel eisteddfodau a chyngherddau. Mae hyn yn fodd i feithrin eu hunanhyder a'u gallu mynegiannol a chreadigol. Mae'r cyswllt â Sinffonia Cymru yn rhoi cyfle gwerthfawr iawn yn flynyddol i gôr a cherddorfa'r ysgol gydweithio a pherfformio gyda cherddorion proffesiynol yn neuadd y pentref.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Ers ei phenodiad ychydig dros flwyddyn yn ôl, mae'r pennaeth wedi cryfhau strategaethau arwain yr ysgol yn sylweddol i sicrhau bod disgyblion yn ddiogel ac yn cyflawni hyd eithaf eu gallu yn unol â'u cam datblygu. Trwy gydweithio'n agos â'r dirprwy a'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol, mae wedi adnabod cryfderau'r ysgol yn gyflym, ynghyd â materion pwysig sydd angen eu gwella ar frys. Mae wedi roi gweithdrefnau effeithiol ar waith sydd eisoes yn dwyn ffrwyth. Ar y cyd, maent yn sicrhau bod staff ar bob lefel yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau yn effeithiol. Mae hyn wedi codi morâl y staff, ymestyn eu brwdfrydedd at addysgu a mynd i'r afael â nifer o anghysondebau ar draws yr ysgol.

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau bod yr ysgol yn un glós a chyfeillgar, gydag ethos gofalgar a chefnogol lle bydd pob disgybl yn cyflawni'n dda ac yn aeddfedu fel aelod gwerthfawr o'r gymdeithas. Maent yn cyfleu'r weledigaeth honno'n glir i'r staff, y rhieni a'r disgyblion. Maent yn rhoi blaenoriaeth ar sicrhau eu bod yn deall ac yn hyrwyddo diwylliant diogelu cryf ar draws yr ysgol.

Mae'r pennaeth a'r rhan fwyaf o'r arweinwyr eraill yn modelu ac yn hybu disgwyliadau uchel o'u hunain, y staff a'r disgyblion. Maent yn arddangos gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at wella'r ysgol. Mae'r pennaeth ac aelodau eraill yr uwch dîm arwain yn rheoli perfformiad yr holl staff yn rheolaidd er mwyn gwella eu harfer. Maent bellach yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â thanberfformio yn ôl yr angen. Rhoddir ffocws clir ar fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, fel sefydlu diwylliant cryf o ddiogelu, lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol disgyblion, gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, a gwella datblygiad medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion.

Mae llywodraethwyr yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau yn drwyadl. Maent yn adnabod yr ysgol yn dda iawn, ac yn gwybod am yr hyn sy'n digwydd o

ddydd i ddydd. Maent yn cynnal teithiau dysgu priodol ac yn gwerthuso’r ddarpariaeth a safonau yn rheolaidd. Maent yn rhoi ystyriaeth lawn i ddeddfwriaeth ac yn darparu arweiniad perthnasol i’r staff a’r teuluoedd, gan gynnwys y ffordd y maent yn rheoli cwynion ac apeliadau gan rieni. Maent yn cyfrannu’n uniongyrchol at bennu blaenoriaethau strategol yr ysgol ac yn meddu ar ddealltwriaeth glir o’i chryfderau a’r meysydd i’w datblygu. Maent yn sicrhau bod yr ysgol yn defnyddio’i adnoddau, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, yn briodol i hybu’r dysgu. Rhoddant gydbwysedd priodol o gymorth a her yn eu rôl fel ‘cyfeillion beirniadol.’ Maent yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae’r pennaeth wedi meithrin perthynas gynhyrchiol iawn â rhieni mewn amser byr, ac mae’n sicrhau bod ganddi linellau cyfathrebu effeithiol er mwyn iddynt allu codi unrhyw faterion a all effeithio ar ddysgu a lles eu plant. Er enghraifft, mae’n anfon cylchlythyr wythnosol iddynt yn rhoi gwybodaeth am faterion sy’n codi'r wythnos ganlynol, ac mae’n diweddaru cyfrifon caeedig ar gyfryngau cymdeithasol i rannu lluniau gweithgareddau ac i anfon negeseuon testun atynt. Mae’r rhieni’n gwerthfawrogi hyn yn fawr.

Mae’r pennaeth wedi mireinio a thynhau gweithdrefnau hunanwerthuso’r ysgol, gan sicrhau eu bod yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol ac yn rhoi darlun cywir o’r sefyllfa gyfredol. Mae deilliannau’r gweithdrefnau hyn yn cyfrannu at gofnodion cynnydd pob dosbarth ac yn bwydo blaenoriaethau’r cynllun datblygu yn addas. Mae’r gweithdrefnau gwella eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion, yn arbennig ym maes iaith a lles, ac ar wella arweinyddiaeth ar bob lefel. Mae’r broses hon yn cynnwys yr holl staff, yn ogystal ag ystod o bartneriaid, gan gynnwys disgyblion, rhieni a llywodraethwyr.

Mae diwylliant ac ethos cadarnhaol yn yr ysgol i hybu a chefnogi dysgu proffesiynol yr holl staff. Mae hyn y cynnwys, yn benodol, datblygu ffyrdd i ddelio â thrawma mewn plant a nifer o strategaethau penodol i ddelio â chyflyrau sy’n ymwneud ag ymddygiad ymosodol. Mae’r rhain eisoes wedi dechrau cael effaith gadarnhaol ar sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth er mwyn bodloni anghenion yr holl ddysgwyr. Mae arweinwyr yn nodi arfer orau yn yr ysgol ac yn sicrhau y gall aelodau staff eraill elwa arni. Maent hefyd yn cydweithio ag ysgolion eraill i rannu a datblygu arfer broffesiynol, yn arbennig ym maes llythrennedd, ac mae’n monitro effaith dysgu proffesiynol ar effeithiolrwydd addysgu ac arweinyddiaeth, ac ar gynnydd a lles disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a’r corff llywodraethol/aelodau’r pwyllgor rheoli’ trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a’r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo’n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo’n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/05/2023